O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L  C Y M R U

# 201- Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Aberaeron, Ceredigion) (Terfynau Cyflymder 40 mya ac 20 mya) 201-

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *201-* |
| *Yn dod i rym* | *201-* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A487, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 84(1)(a), 84(1)(c), (1A) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Cychwyn a Dehongli

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Aberaeron, Ceredigion) (Terfynau Cyflymder 40 mya ac 20 mya) 201- a daw i rym ar **** 201-.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**2**);

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) ac adran 81(1A) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

W E L S H  S T A T U T O R Y  I N S T R U M E N T S

# 201- No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A487 Trunk Road (Aberaeron, Ceredigion) (40 mph & 20 mph Speed Limits) Order 201-

| | |
|---|---|
| *Made* | *201-* |
| *Coming into force* | *201-* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A487 Trunk Road, in exercise of the powers conferred upon them by sections 84(1)(a), 84(1)(c), (1A) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**) and after consultation with the Chief Officer of Dyfed-Powys Police, make this Order.

### Title, Commencement and Interpretation

**1.** The title of this Order is the A487 Trunk Road (Aberaeron, Ceredigion) (40 mph & 20 mph Speed Limits) Order 201- and it comes into force on **** 201-.

**2.** In this Order:

"exempted vehicle" *("cerbyd esempt")* means:

(a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(**2**);

(**1**) 1984 c. 27; section 84(1) and section 81 (1A) were substituted by the Road Traffic Act 1991 (c. 40), section 45(2). Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c. 22), Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(**2**) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29(2), and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

   (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

   (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor; ac

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Cyfyngiadau**

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach nag 20 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach nag 20 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**6.** Nid yw'r cyfyngiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 201-

*Richard Morgan*
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

   (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

   (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

"special forces" *("lluoedd arbennig")* means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director; and

"the trunk road" *("y gefnffordd")* means the A487 Fishguard to Bangor Trunk Road.

**Restrictions**

**3.** No person may drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 20 miles per hour on the length of the trunk road described in Schedule 1 to this Order.

**4.** No person may drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 20 miles per hour on the length of the trunk road described in Schedule 2 to this Order.

**5.** No person may drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of the trunk road described in Schedule 3 to this Order.

**Application**

**6.** The restriction in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated 201-

*Richard Morgan*
Head of Planning, Asset Management & Standards
Welsh Government

## ATODLEN 1
## Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser

Y darn o'r gefnffordd yn Aberaeron, Ceredigion sy'n ymestyn o bwynt 81 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sy'n arwain at swyddfeydd Cyngor Sir Ceredigion hyd at bwynt 14 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Heol yr Odyn.

## ATODLEN 2
## Terfyn Cyflymder 20 mya

Y darn o'r gefnffordd yn Aberaeron, Ceredigion, sy'n ymestyn o bwynt 14 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Heol yr Odyn hyd at bwynt 13 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd y Gaer.

## ATODLEN 3
## Terfyn Cyflymder 40 mya

Y darn o'r gefnffordd yn Aberaeron, Ceredigion sy'n ymestyn o bwynt 782 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sy'n arwain at swyddfeydd Cyngor Sir Ceredigion hyd at bwynt 81 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt y gyffordd honno.

## SCHEDULE 1
## Part-time 20 mph Speed Limit

The length of the trunk road at Aberaeron, Ceredigion that extends from a point 81 metres south-west of the centre-point of its junction with the road leading to the offices of Ceredigion County Council to a point 14 metres north-east of the centre-point of its junction with Wellington Street.

## SCHEDULE 2
## 20 mph Speed Limit

The length of the trunk road at Aberaeron, Ceredigion that extends from a point 14 metres north-east of the centre-point of its junction with Wellington Street to a point 13 metres north-east of the centre-point of its junction with Regent Street.

## SCHEDULE 3
## 40 mph Speed Limit

The length of the trunk road at Aberaeron, Ceredigion that extends from a point 782 metres south-west of the centre-point of its junction with the road leading to the offices of Ceredigion County Council to a point 81 metres south-west of the centre-point of that junction.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487 (ABERAERON, CEREDIGION) (TERFYNAU CYFLYMDER 40 MYA AC 20 MYA) 201-**

**DATGANIAD O'R RHESYMAU**

Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd mewn cysylltiad â symudiadau cerddwyr ger Ysgol Gynradd Aberaeron ac i ddiogelu defnyddwyr y ffordd ar gefnffordd yr A487 yn Aberaeron, Ceredigion.

Diben y Gorchymyn yw cyflwyno terfyn cyflymder 20 mya ar ddarn o gefnffordd yr A487 i ostwng cyflymder traffig ger yr ysgol pan fydd disgyblion ysgol yn teithio i safle'r ysgol ac ohono. Bwriedir i'r terfyn cyflymder 20 mya fod yn gymwys am gyfnodau cyfyngedig o'r dydd yn ystod y tymor ysgol pan fydd arwyddion traffig yn dangos hynny: bydd y terfyn cyflymder 30 mya presennol yn parhau mewn grym ar bob adeg arall. Bwriedir i'r terfyn cyflymder is yn ystod y cyfnodau hyn leihau'r tebygolrwydd o wrthdrawiadau a hybu diogelwch cerddwyr.

Bydd y Gorchymyn hefyd yn cyflwyno terfyn cyflymder 20 mya ar ddarn o gefnffordd yr A487 yng nghanol tref Aberaeron. Mae ymchwiliadau wedi dangos bod cyflymder traffig ar hyn o bryd yng nghanol y dref yn cyfiawnhau terfyn cyflymder 20 mya gan fod y dystiolaeth ddiweddar yn dangos bod pob gwrthdrawiad a gofnodwyd wedi digwydd ar hyd y darn hwn o gefnffordd yr A487.

Caiff terfyn cyflymder 40 mya ei gyflwyno hefyd ar ddarn o gefnffordd yr A487 ar y ffordd tua'r gogledd sy'n arwain at yr ysgol sydd ar hyn o bryd yn ddarostyngedig i'r terfyn cyflymder cenedlaethol. Bydd hyn yn gostwng cyflymder traffig sy'n agosáu at yr ysgol ar bob adeg a hefyd yn creu clustogfa rhwng y terfyn cyflymder 60 mya a'r terfyn cyflymder 20 mya a fydd yn diogelu holl ddefnyddwyr y ffordd.

**THE A487 TRUNK ROAD (ABERAERON, CEREDIGION) (40 MPH & 20 MPH SPEED LIMITS) ORDER 201-**

**STATEMENT OF REASONS**

The proposed Order is necessary to ensure the safety of the public in connection with pedestrian movements near Aberaeron Primary School and to safeguard road users on the A487 trunk road at Aberaeron, Ceredigion.

The purpose of the Order is to introduce a 20 mph speed limit on a length of the A487 trunk road to reduce the speed of traffic near the school when school pupils are travelling to and from the school site. The 20 mph speed limit is intended to operate for limited periods of the day during school term time when indicated by traffic signs: at all other times the existing 30 mph speed limit will remain in force. The reduced speed limit during these periods is intended to reduce the likelihood of a collision and promote pedestrian safety.

The Order will also introduce a 20 mph speed limit on a length of the A487 trunk road in Aberaeron town centre. Investigations have shown that existing traffic speeds in the centre of the town warrant a 20 mph speed limit as recent evidence indicates all recorded collisions were located along this length of the A487 trunk road.

A 40 mph speed limit will also be introduced on a length of the A487 trunk road on the northbound approach to the school that is currently subject to the national speed limit. This will reduce the speed of approaching traffic in the vicinity of the school at all times and will create a buffer zone between the 60 mph and 20 mph speed limits, which will safeguard all road users.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487 (ABERAERON, CEREDIGION) (TERFYNAU CYFLYMDER 40 MYA AC 20 MYA) 201-**

Mae'r Hysbysiad hwn yn disodli'r Hysbysiad a gyhoeddwyd ar 30 Mai 2018 mewn cysylltiad â Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Aberaeron, Ceredigion) (Terfyn Cyflymder 40 mya a Therfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser) 201-.

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 84(1)(a), 84(1)(c), (1A) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd cyflwyno terfyn cyflymder 20 mya ar y darn o gefnffordd yr A487 a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Bwriedir i'r terfyn cyflymder 20 mya fod yn gymwys am gyfnodau cyfyngedig o'r dydd yn ystod y tymor ysgol pan fydd arwyddion traffig yn dangos hynny: bydd y terfyn cyflymder 30 mya presennol yn parhau mewn grym ar bob adeg arall. Bwriedir i'r terfyn cyflymder is yn ystod y cyfnodau hyn ostwng cyflymder traffig a hybu diogelwch cerddwyr ger Ysgol Gynradd Aberaeron yn Aberaeron, Ceredigion.

Caiff terfyn cyflymder 20 mya ei gyflwyno hefyd ar y darn o gefnffordd yr A487 a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn. Mae ymchwiliadau wedi dangos bod cyflymder traffig ar hyn o bryd yng nghanol y dref yn cyfiawnhau terfyn cyflymder 20 mya gan fod y dystiolaeth ddiweddar yn dangos bod pob gwrthdrawiad a gofnodwyd wedi digwydd ar hyd y darn hwn o gefnffordd yr A487.

Caiff terfyn cyflymder 40 mya ei osod ar y darn o gefnffordd yr A487 a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn. Bydd hyn yn gostwng cyflymder traffig ar y ffordd tua'r gogledd sy'n arwain at yr ysgol a hefyd yn creu clustogfa rhwng y terfyn cyflymder 60 mya a'r terfyn cyflymder 20 mya a fydd yn diogelu holl ddefnyddwyr y ffordd.

Yn ystod cyfnod o 21 o ddiwrnodau o 10 Gorffennaf 2019 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn arfaethedig, y plan a'r Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau agor arferol, yn Llyfrgell Aberaeron, Neuadd y Sir, Heol y Farchnad, Aberaeron SA46 0AT neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1345355.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau yn ysgrifenedig, gan nodi ar ba sail y'u gwneir, i: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ neu drwy e-bost i

**THE A487 TRUNK ROAD (ABERAERON, CEREDIGION) (40 MPH & 20 MPH SPEED LIMITS) ORDER 201-**

This Notice supersedes the Notice that was published on 30 May 2018 in respect of the A487 Trunk Road (Aberaeron, Ceredigion) (40 mph & Part-time 20 mph Speed Limits) Order 201-.

The Welsh Ministers propose to make an Order in exercise of their powers under sections 84(1)(a), 84(1)(c), (1A) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The effect of the proposed Order will be to introduce a 20 mph speed limit on the length of the A487 trunk road described in Schedule 1 to this Notice. The 20 mph speed limit is intended to apply for limited periods of the day during school term time when indicated by traffic signs; at all other times the existing 30 mph speed limit will remain in force. The reduced speed limit during these periods is intended to reduce the speed of traffic and promote pedestrian safety near Aberaeron Primary School at Aberaeron, Ceredigion.

A 20 mph speed limit will also be introduced on the length of the A487 trunk road described in Schedule 2 to this Notice. Investigations have shown that existing traffic speeds in the centre of the town warrant a 20 mph speed limit as recent evidence indicates all recorded collisions were located along this length of the A487 trunk road.

A 40 mph speed limit will also be imposed on the length of the A487 trunk road described in Schedule 3 to this Notice. This will reduce the speed of traffic on the northbound approach to the school and will create a buffer zone between the 60 mph and 20 mph speed limits, which will safeguard all road users.

During a period of 21 days from 10 July 2019 a copy of the proposed Order, plan and a Statement of Reasons for making the Order may be inspected, free of charge, during normal opening hours at Aberaeron Library, County Hall, Market Street, Aberaeron SA46 0AT or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1345355.

Objections, specifying the grounds on which they are made, must be sent in writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ or by e-mail to

Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru erbyn 31 Gorffennaf 2019. Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd arnom angen ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses o ymgynghori ag eraill caniateir i ni roi gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ein galluogi i ymdrin â'r materion yr ydych wedi eu dwyn i'n sylw. Os nad ydych yn dymuno i ddata personol gael ei anfon ymlaen at drydydd partïon, dylech nodi pam pan fyddwch yn cyflwyno eich gohebiaeth a bydd Gweinidogion Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd partïon priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu. Os bydd Ymchwiliad Cyhoeddus lleol yn cael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

Transport.OrdersBranch@gov.wales by 31 July 2019. Should you wish to object, support or make representations, we may need to consult with people and organisations outside of the Welsh Government. As part of the process of consulting with others we may pass information to them, including information you have given us and your personal data. We will, however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to enable us to deal with issues you have brought to our attention. If you do not wish personal data to be forwarded to third parties, you should state why when submitting your correspondence and the Welsh Ministers will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed and if there is to be a local Public Inquiry, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://gweddill.llyw.cymru/legislation/subordinate/?lang=cy (detholer: Deddfwriaeth ddrafft/ Offerynnau statudol lleol drafft/ Gorchmynion traffig parhaol).

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gweddill.gov.wales/legislation/subordinate/?lang=en (select: Draft Legislation/ Draft Local Statutory Instruments/ Permanent Traffic Orders).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

**ATODLEN 1**
**Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser**

Y darn o gefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 81 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sy'n arwain at swyddfeydd Cyngor Sir Ceredigion hyd at bwynt 14 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Heol yr Odyn.

**SCHEDULE 1**
**Part-time 20 mph Speed Limit**

The length of the A487 trunk road that extends from a point 81 metres south-west of the centre-point of its junction with the road leading to the offices of Ceredigion County Council to a point 14 metres north-east of the centre-point of its junction with Wellington Street.

**ATODLEN 2**
**Terfyn Cyflymder 20 mya**

Y darn o gefnffordd yr A487 yn Aberaeron, Ceredigion, sy'n ymestyn o bwynt 14 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Heol yr Odyn hyd at bwynt 13 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei

**SCHEDULE 2**
**20 mph Speed Limit**

The length of the A487 trunk road at Aberaeron, Ceredigion that extends from a point 14 metres north-east of the centre-point of its junction with Wellington Street to a point 13 metres north-east of the centre-

chyffordd â Ffordd y Gaer.

**ATODLEN 3**
**Terfyn Cyflymder 40 mya**

Y darn o gefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 782 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sy'n arwain at swyddfeydd Cyngor Sir Ceredigion hyd at bwynt 81 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt y gyffordd honno.

point of its junction with Regent Street.

**SCHEDULE 3**
**40 mph Speed Limit**

The length of the A487 trunk road that extends from a point 782 metres south-west of the centre-point of its junction with the road leading to the offices of Ceredigion County Council to a point 81 metres south-west of the centre-point of that junction.